- enjoy performing musical theatre, as it offers a broad introduction to the Performing Arts sector, with an emphasis on core knowledge and fundamental transferable skills.
- want to gain an insight into the nature of the industry and current employment opportunities, along with constraints and issues facing professionals working within the performing arts sector.

## How will you be assessed?

Assessment is on-going with a variety of practical and written assignments demonstrating an ability to develop and use appropriate skills and techniques. Performances/ rehearsals will be digitally recorded and you will complete written essays and reflections on work in progress and performances.

## Entry Requirements:

GCSE in Drama, Music or Expressive Arts and some ability or previous experience in singing and dancing to at least Grade 3 standard.

## Your options after the course:

This course will provide the performer with a broad educational base for further studying, training and employment within the Performing Arts sector or at undergraduate level.



# FFOTOGRAFFIAETH

LEFEL A CBAC

**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL ABERCONWY

### Beth fyddwch yn ei astudio?

- Sgiliau technegol priodol mewn ffotograffiaeth ddigidol a du a gwyn.
- Datblygu gwybodaeth artistig a chreadigol sy'n gysylltiedig â ffotograffiaeth.
- Astudio gwaith ffotograffwyr eraill yn fanwl.

### I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sy'n gobeithio astudio ffotograffiaeth ar lefel uwch neu sydd eisiau cael swydd yn amgylchedd dynamig y byd ffotograffiaeth.
- Gall y dysgwyr ddysgu drwy gyfrwng y Saesneg, y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

### Sut gewch chi eich asesu?

- Yn ystod y flwyddyn gyntaf, i gael y Lefel AS, byddwch yn cwblhau un uned gwaith cwrs, sy'n cyfateb i 40% o'r cymhwyster Lefel A llawn. Caiff yr uned hon ei hasesu drwy gyfuniad o asesiadau interim ac adborth a chaiff ei safoni'n allanol ar derfyn y flwyddyn AS.
- Yn ystod yr ail flwyddyn, i gael y Lefel A lawn, byddwch yn cwblhau 'Ymchwiliad Personol' ac 'Aseiniad a Osodwyd yn Allanol' a fydd, gyda'i gilydd, yn cyfateb i 60% o'r cymhwyster Lefel A llawn.

### Gofynion Mynediad:

Y gofynion mynediad yw lleiafswm o 4 TGAU Gradd C neu'n uwch. Bydd angen i chi ddangos diddordeb brwd mewn Ffotograffiaeth.

### Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yma'n ychwanegu at eich cymwysterau ac yn eich helpu i symud ymlaen. Byddwch yn ennill pwyntiau UCAS a byddwch yn gallu defnyddio'r rhain tuag at eich cais am gwrs Addysg Uwch.

# PHOTOGRAPHY

WJEC A LEVEL

**LEARNING PROVIDER:** YSGOL ABERCONWY

### What will you study?

- Appropriate technical skills in black and white and digital photography.
- The development of artistic and creative knowledge associated with photography.
- Studying the work of other photographers in some depth.

### Who is the course for?

- Learners who have aspirations of studying photography at a higher level or wishing to gain employment within the dynamic environment of photography.
- Learners can learn through the medium of English, Welsh-medium and bilingually.

### How will you be assessed?

- In the first year, to achieve the AS Level, you will complete a single coursework unit equating to 40% of the full A Level. This is assessed via a blend of interim assessment and feedback, with final external moderation taking place at the end of the AS year.
- In the second year, to achieve the full A Level, you will also complete a 'Personal Investigation' plus 'Externally Set Assignment' which together will equate to 60% of the full A Level.

### Entry Requirements:

A minimum of 4 GCSEs Grade C or above. You will need to demonstrate a keen interest in photography.

### Your options after the course:

This course adds to your qualifications and helps you to progress. You will gain UCAS points and be able to use these towards your application for a Higher Education course.



# SEICOLEG

LEFEL A CBAC
**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL ABERCONWY

## Beth fyddwch yn ei astudio?
Y diffiniad a roddir am Seicoleg yw gwyddoniaeth y meddwl a'r ymddygiad.
Bydd y cwrs Lefel A yn ymdrin â phum ymagwedd:
- Biolegol, Ymddygiadol, Gwybyddol, Seicodynameg a Phositif. Mae pob ymagwedd yn ceisio esbonio ymddygiad dynol mewn ffordd wahanol.
- Byddwch hefyd yn dysgu sut mae Gwaith ymchwil seicolegol yn cael ei lunio, ei weithredu a'i ddadansoddi, yn ogystal ag edrych ar bum dadl gyfoes mewn Seicoleg – o faint y gallwch ddibynnu ar dystiolaeth tystion i foeseg niwrowyddoniaeth.

## I bwy mae'r cwrs?
Mae'r cwrs yn agored i ddysgwyr sydd eisiau:
- dilyn gyrfa mewn Seicoleg neu sydd â diddordeb cyffredinol mewn ymddygiad dynol. Mae'n gweithio'n dda gyda'r mwyafrif o gyfuniadau pynciau Lefel A;
- cael golwg gyffredinol ar y pwnc, ac nid yw'n tybio bod gennych wybodaeth am y pwnc yn barod. Ond, dylech fod â meddwl gwyddonol a chwilfrydig, gan fwynhau tasgau ysgrifenedig estynedig a theimlo'n gyfforddus yn dadansoddi data.

## Sut gewch chi eich asesu?
Arholir yr UG gyda dau arholiad ysgrifenedig ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd y Lefel A yn cael ei asesu drwy ddau arholiad ysgrifenedig pellach ar ddiwedd blwyddyn dau.

## Gofynion Mynediad:
TGAU gradd B neu'n uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:
Efallai y byddwch yn penderfynu gwneud cais am radd gyntaf mewn Seicoleg neu bwnc perthnasol, neu fynd i mewn i swydd. Ymysg y llwybrau gyrfaol posibl mae Seicoleg Glinigol neu Iechyd, Addysg, Hysbysebu, Seicoleg Chwaraeon, Seicoleg Fforensig a Marchnata neu Droseddeg.

# PSYCHOLOGY

WJEC A LEVEL
**LEARNING PROVIDER:** YSGOL ABERCONWY

## What will you study?
Psychology is defined as the science of the mind and behaviour.
The A Level course will cover five approaches:
- Biological, Behaviourist, Cognitive, Psychodynamic and Positive. Each approach attempts to explain human behaviour in a different way.
- You will also learn about how psychological research is designed, conducted and analysed, as well as looking at five contemporary debates in psychology – from the reliability of eyewitness testimony to the ethics of neuroscience.

## Who is the course for?
The course is open to learners wishing to:
- pursue a career in psychology or who have a general interest in human behaviour. It works well with most A Level subject combinations;
- gain an overview of the subject, and assumes no prior knowledge. However, you should have a scientific and enquiring mind, enjoy extended writing tasks and be comfortable analysing data.

## How will you be assessed?
The AS is examined through two written examinations at the end of the year. The A Level will be assessed through two further written exams at the end of year two.

## Entry Requirements:
A GCSE grade B or above in English or Welsh, Maths or Numeracy and Science.

## Your options after the course:
You may decide to apply for an undergraduate degree in psychology or a related subject, or enter employment. Possible career paths include Health or Clinical Psychology, Education, Advertising, Sports Psychology, Marketing and Forensic Psychology or Criminology.




# GWASANAETHAU CYHOEDDUS: GWASANAETHAU DIOGELU CYHOEDDUS MEWN LIFRAI

DIPLOMA SYLFAEN CENEDLAETHOL BTEC
**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL BRYN ELIAN

## Beth fyddwch yn ei astudio?

- Mae'r unedau gorfodol yn ymdrin â Llywodraeth a Pholisïau, Arweinyddiaeth a Gwaith Tîm, yn ogystal â Dinasyddiaeth ac Amrywiaeth.
- Gall yr unedau eraill gynnwys Parodrwydd Ffisegol, Trosedd, Pwerau'r Heddlu, Rhyfel a Gwrthdaro ac Alldeithiau.
- Mae ystod o athrawon yn darparu'r cwrs, yn unol â'u gwybodaeth arbenigol, gyda chymorth ymweliadau a sgyrsiau gan aelodau o'r gwasanaethau cyhoeddus.

## I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sydd â diddordeb mewn gyrfa yn un o'r gwasanaethau arfog megis y Fyddin, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu un o'r meysydd niferus o gyflogaeth y llywodraeth leol neu genedlaethol megis y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng neu Wasanaeth Erlyn y Goron.
- Dysgwyr sydd eisiau dilyn cwrs a fydd yn rhoi gwybod iddynt am syniadau megis y Gyfraith, y Llysoedd, y Cyfryngau, Dinasyddiaeth a Hawliau Dynol.
- Mae'n gwrs sy'n ennyn parch mawr ac mae'n pwysleisio dysgu realistig ac yn rhoi ffocws ar waith.

## Sut gewch chi eich asesu?

Asesir dysgwyr mewn un uned gydag arholiad terfynol. Asesir y pedair uned sy'n weddill drwy aseiniadau. Gwneir yr asesiadau drwy aseiniadau ysgrifenedig a datganiadau tyst o'r gweithgareddau ymarferol a wneir.
Astudir y cymhwyster hwn dros ddwy flynedd ac mae'n gyfatebol â 1.5 Safon Uwch.

## Gofynion mynediad:

Gall dysgwyr sy'n ennill o leiaf 5 gradd A*- C ar Lefel 2, gan gynnwys gradd C neu uwch mewn iaith Saesneg, wneud yn dda ar y cwrs hwn.

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cwrs yn baratoad rhagorol ar gyfer gyrfa yn un o'r gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ystod gyfan o gyflogwyr yn cydnabod hwn. Mae hefyd yn denu yr un pwyntiau UCAS ag un/dwy Lefel A, ac yn sail gadarn ar gyfer addysg bellach neu uwch.

# PUBLIC SERVICES: UNIFORMED PROTECTIVE PUBLIC SERVICES

BTEC NATIONAL FOUNDATION DIPLOMA
**LEARNING PROVIDER:** YSGOL BRYN ELIAN

## What will you study?

- Compulsory units cover Citizenship and Diversity, Behaviour and Discipline in the Uniformed Services, Physical Preparation, and Teamwork and Leadership in the Uniformed Public Services.
- A fifth additional unit will also be completed.
- A range of teachers deliver the course, according to their specialist knowledge, aided by visits and talks from members of the public services.

## Who is the course for?

- Learners who have an interest in a career in one of the armed services such as the Army, or the Police, Fire and Rescue Service or one of the many areas of local or national government employment such as Emergency Planning or the Crown Prosecution Service.
- Learners who wish to follow a course that will inform them about concepts such as the Law, the Courts, the Media, Citizenship and Human Rights.
- It is a highly regarded course which emphasizes realistic, work-focused learning.

## How will you be assessed?

Learners are assessed in one unit with a terminal examination. The remaining four units are assessed through assignments. Assessments will be through written assignments and witness statements of practical activities undertaken.
This qualification is studied over two years and is equivalent to 1.5 A-Levels.

## Entry Requirements:

Learners who achieve a minimum of 5 A* - C grades at Level 2, including a grade C or above in English Language can do well on this course.

## Your options after the course:

The course is an excellent preparation for a career in one of the public services. It is widely regarded by the full range of employers. It also attracts the same UCAS points as and is a firm basis for further or higher education.

# CYMDEITHASEG

LEFEL A CBAC

**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL BRYN ELIAN

## Beth fyddwch chi'n ei astudio?

Bydd dysgwyr yn caffael gwybodaeth ac yn ennill dealltwriaeth feirniadol o brosesau cymdeithasol cyfoes a newidiadau cymdeithasol,arwyddocâd materion damcaniaethol a chysyniadol mewn dadl gymdeithasegol. Yn ogystal â hyn, byddant yn deall ac yn gwerthuso methodoleg gymdeithasegol Byddant yn datblygu sgiliau i ganolbwyntio ar eu hunaniaeth bersonol, eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn cymdeithas ac yn datblygu diddordeb gydol oes mewn materion cymdeithasol yng Nghymru a ledled y byd.

**Blwyddyn 12**

**Uned 1** – Caffael Diwylliant.

**Mae Adran A** yn canolbwyntio ar gysyniadau a phrosesau allweddol trosglwyddo diwylliannol, cymdeithasu a chaffael hunaniaeth.

**Mae Adran B** yn gyflwyniad i Isddiwylliannau Ieuenctid. Bydd dysgwyr yn nodi'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ffurfio diwylliannau ieuenctid* ac yn dod i wybod am bersbectif damcaniaethol o ddiwylliannau ieuenctid.

**Uned 2** – Deall Cymdeithas a Dulliau o Ymholi Cymdeithasegol.

**Adran A** - Bydd dysgwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd dulliau ymchwill amrywiol ac yn asesu'r ystyriaethau moesegol sy'n ofynnol mewn ymchwil gan ddefnyddio astudiaethau achos cyfoes.

**Adran B** - Addysg a rôl a swyddogaeth addysg yn y gymdeithas gyfoes. Mae dysgwyr yn asesu patrymau a thueddiadau cyrhaeddiad gwahaniaethol a chyfranogwr gan gyfeirio at ddosbarth cymdeithasol, rhyw ac ethnigrwydd.

**Blwyddyn 13**

**Uned 3** – Trosedd a Gwyredd. Bydd dysgwyr yn asesu patrymau dosbarthiad cymdeithasol trosedd a gwyredd sy'n gysylltiedig â dosbarth cymdeithasol, rhyw, ethnigrwydd ac oedran*, archwilio ystadegau swyddogol y llywodraeth ac yn asesu effaith polisïau cymdeithasol cyfoes ar gyfraddau trosedd* a dysgu am ddamcaniaethau ac esboniadau trosedd a gwyredd.

**Uned 4** – Anghydraddoldeb Cymdeithasol a Dulliau Cymhwysol o Ymholi Cymdeithasegol. **Mae Adran A** yn canolbwyntio ar y broses o ddylunio ymchwil Bydd dysgwyr yn dylunio, dadansoddi, cyfiawnhau a gwerthuso eu cynnig ymchwil eu hunain.

**Mae Adran B** yn canolbwyntio ar Anghydraddoldeb Cymdeithasol. Cyflwynir dysgwyr i wahaniaethu cymdeithasol, pŵer a haeniad a byddant yn defnyddio tystiolaeth empirig, data ystadegol ac enghreifftiau o Gymru, i ddangos anghydraddoldeb ac i werthuso defnyddioldeb damcaniaethau cymdeithasegol.

*yng Nghymru a Lloegr

## I bwy mae'r cwrs?

Mae Cymdeithaseg ar gyfer dysgwyr sydd â diddordeb cryf yn y gymdeithas gyfoes ac yn meithrin datblygiad meddwl beirniadol a myfyriol gan barchu amrywiaeth gymdeithasol. Byddant yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd strwythur cymdeithasol a gweithredu cymdeithasol wrth egluro materion cymdeithasol.

## Sut fyddwch chi'n cael eich asesu?

Blwyddyn 12 - dau arholiad ysgrifenedig = 40% o radd gyffredinol y cymhwyster.

Bllwyddyn 13 - dau arholiad ysgrifenedig = 60% o radd gyffredinol y cymhwyster.

## Gofynion Mynediad:

Laith Saesneg gradd C neu uwch sydd orau. Bydd angen rhywfaint o brofiad hefyd ar ddysgwyr o gynhyrchu ysgrifennu estynedig a dadansoddi deunydd ffynhonnell.

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r cymhwyster hwn yn rhoi'r sylfaen i ddysgwyr symud ymlaen i astudiaethau Cymdeithaseg mewn addysg uwch, fel arall gall gefnogi eraill gan gynnwys Troseddeg, Seicoleg neu Hanes. Yn ogystal, gellir defnyddio pynciau a astudir o fewn y cymhwyster hwn i gefnogi astudiaethau galwedigaethol gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, nyrsio, gwaith cymdeithasol ac addysg.

# SOCIOLOGY

WJEC A LEVEL

**LEARNING PROVIDER:** YSGOL BRYN ELIAN

## What will you study?

Learners will acquire knowledge and gain a critical understanding of contemporary social processes and social changes,the significance of theoretical and conceptual issues in sociological debate and understand and evaluate sociological methodology and a range of research methods.. Learners will develop skills to focus on their personal identity, roles and responsibilities within society and develop a lifelong interest in social issues in Wales and around the world.

**Year 12**

**Unit 1** – Acquiring Culture.

**Section A** - key concepts and processes of cultural transmission, socialisation and the acquisition of identity.

**Section B** - an introduction to Youth Subcultures. Learners will identify the factors that influence the formation of youth cultures* and will gain knowledge of a theoretical perspective of youth cultures.

**Unit 2** – Understanding Society and Methods of Sociological Enquiry.

**Section A** - Learners will evaluate the effectiveness of various research methods and assess the ethical considerations required in research using contemporary case studies.

**Section B** - the role and function of education in contemporary society. Learners assess patterns and trends of differential attainment and participant with reference to social class, gender and ethnicity.

**Year 13**

**Unit 3** – Crime and Deviance. Assess patterns of social distribution of crime and deviance related to social class, gender, ethnicity and age*. Examine official government statistics and assess the impact of contemporary social policies on crime rates* and learn theories and explanations of crime and deviance.

**Unit 4** – Social Inequality and Applied Methods of Sociological Enquiry. **Section A** - the process of research design. Learners will design, analyse, justify and evaluate their own research proposal.

**Section B** – Social Inequality. An introduction to social differentiation, power and stratification using empirical evidence, statistical data and examples drawn from Wales, to demonstrate inequality and to evaluate the usefulness of sociological theories.

*in England and Wales

## Who is the course for?

Sociology is for learners who have a strong interest in contemporary society. Learners will foster the development of critical and reflective thinking with respect for social diversity andgain an awareness of the importance of social structure and social action in explaining social issues.

## How will you be assessed?

Year 12- two written examinations = 40% of overall qualification grade.

Year 13- two written examinations = 60% of the overall qualification grade.

## Entry Requirements:

English Language at grade C or above is preferred. Learners will also require some experience of producing extended writing and analysing source material.

## Your options after the course:

This qualification provides learners with the foundation to move onto studies of Sociology in higher education, alternatively it can support others including Criminology, Psychology or History. Additionally, topics studied within this qualification can be used to support vocational studies including health and social care, nursing, social work and education.



# SBAENEG

LEFEL A CBAC

**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL JOHN BRIGHT

## Beth fyddwch yn ei astudio?

Bydd dysgwyr yn adeiladu ar eu hastudiaeth flaenorol o Sbaeneg. Trwy themâu cymdeithasol, deallusol a diwylliannol, bydd dysgwyr yn gallu datblygu eu gwybodaeth ieithyddol a'u dealltwriaeth ddiwylliannol o'r gwledydd neu'r cymunedau lle siaredir yr iaith.
Bydd y themâu a astudiwyd yn cynnwys:

- Bod yn berson ifanc yn siarad Sbaeneg
- Deall y byd sy'n siarad Sbaeneg
- Amrywiaeth a Gwahaniaeth
- Y ddwy Sbaen, 1936 ymlaen

Mae cyfle hefyd i astudio llenyddiaeth a ffilm a fydd yn caniatáu i ddysgwyr gynnal dadansoddiad dyfnach o strwythurau iaith a chynyddu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol fel rhan o ddull integredig o ddysgu iaith.

## I bwy mae'r cwrs?

- Dysgwyr sy'n gweithio'n galed ac yn benderfynol ac sy'n mwynhau cael eu herio.
- Dysgwyr sy'n awyddus i ddatblygu sgil y ceisir amdani mewn llawer o yrfaoedd gwahanol.
- Dysgwyr sydd â diddordeb mewn diwylliannau gwahanol a'r byd ehangach.

## Sut gewch chi eich asesu?

Mae'r cymhwyster hwn i gyd yn seiliedig ar arholiadau.
**UG Uned 1:** Siarad
**UG Uned 2:** Gwrando, Darllen, Cyfieithu ac Ymateb Beirniadol mewn Ysgrifennu (yn seiliedig ar astudiaeth o ffilm)
**A2 Uned 3:** Siarad
**A2 Uned 4:** Gwrando, Darllen a Chyfieithu
**A2 Uned 5:** Ymateb Beirniadol a Dadansoddol mewn Ysgrifennu (yn seiliedig ar astudio llyfr)

## Gofynion Mynediad:

Gradd C neu uwch mewn TGAU Sbaeneg

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

- Gradd sy'n gysylltiedig ag iaith yn y brifysgol.
- Gyrfaoedd fel; ymchwilydd academaidd, swyddog gwasanaeth diplomyddol, Saesneg fel athro iaith dramor, dadansoddwr cudd-wybodaeth, gweithiwr cymorth / datblygu rhyngwladol, dehonglydd, dadansoddwr risg gwleidyddol, addysg, cyfieithydd neu gyfieithydd.
- Teithio!

# SPANISH

WJEC A LEVEL

**LEARNING PROVIDER:** YSGOL JOHN BRIGHT

## What will you study?

Learners will build on their previous study of Spanish. Through social, intellectual and cultural themes learners will be able to develop their linguistic knowledge and cultural understanding of the countries or communities where the language is spoken.
The themes studied will include:

- Being a young person in Spanish speaking
- Understanding the Spanish speaking world
- Diversity and Difference
- The two Spains, 1936 onwards

There is also the opportunity to study literature and film which will allow learners to undertake a deeper analysis of language structures and increase their cultural awareness as part of an integrated approach to language learning.

## Who is the course for?

- Learners who are hardworking and determined and who enjoy being challenged.
- Learnings who are looking to develop a skill that is sought after in many different careers.
- Learners who are interested in different cultures and the wider world.

## How will you be assessed?

This qualification is all exam based.
**AS Unit 1:** Speaking
**AS Unit 2:** Listening, Reading, Translation and Critical Response in Writing (based on a study of a film)
**A2 Unit 3:** Speaking
**A2 Unit 4:** Listening, Reading and Translation
**A2 Unit 5:** Critical and Analytical Response in Writing (based on the study of a book)

## Entry Requirements:

Grade C or above in GCSE Spanish

## Your options after the course:

- A language related degree at university.
- Careers such as; Academic researcher, Diplomatic service officer, English as a foreign language teacher, Intelligence analyst, International aid/development worker, Interpreter, Political risk analyst, Education, Translator or Interpreter.
- Travel!



# CYMRAEG IAITH GYNTAF

LEFEL A CBAC
**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL Y CREUDDYN

## Beth fyddwch yn ei astudio?
Ni fu erioed adeg fwy cyffrous i astudio'r Gymraeg fel pwnc Uwch Gyfrannol. Mewn meysydd mor amrywiol â'r cyfryngau, addysg, y gwasanaeth sifil, cysylltiadau cyhoeddus, byd cyfieithu a llywodraeth leol, y mae galw aruthrol am rai sydd â chymhwyster dda yn y Gymraeg. Mae Ysgol y Creuddyn wedi ymateb yn egnïol i'r alwad hon drwy gynnig cwrs diddorol a blaengar sy'n berthnasol i ofynion y byd modern. Yma cewch gyfle i feithrin sgiliau gwerthfawr ar gyfer swyddi yng Nghymru, ysgrifennu a siarad yn hyderus, dadansoddi a mynegi syniadau cymleth, yn ogystal â dysgu am ddiwylliant Cymru.

## I bwy mae'r cwrs?
Mae'r cwrs yma wedi'i lunio i annog dysgwyr i:
- ddatblygu diddordeb mewn iaith a brwdfrydedd am iaith;
- datblygu dealltwriaeth o'r iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau;
- cyfathrebu'n hyderus, yn glir ac yn effeithiol yn yr iaith ar gyfer ystod o bwrpasau;
- datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gymdeithas gyfoes, cefndir diwylliannol a threftadaeth cymunedau lle siaredir yr iaith.

## Sut gewch chi eich asesu?

Uwch Gyfrannol
**Uned 1:** Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd - 20% tua ¾ awr i bob grŵp arholiad llafar
**Uned 2:** Asesiad Mewnol Ysgrifenedig (Gwaith Cwrs) - 15% Asesiad Mewnol
**Uned 3:** Defnyddio'r Iaith a Barddoniaeth - 15% Papur Arholiad Ysgrifenedig

Uwch
**Uned 4:** Y Nofel a Llafaredd - 15% tua ¾ awr i bob grŵp Arholiad Llafar
**Uned 5:** Y Chwedlau, Yr Hengerdd a'r Cywyddau - 15% Papur Ysgrifenedig
**Uned 6:** Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a Defnyddio'r Iaith - 20% Papur Ysgrifenedig

## Gofynion Mynediad:
TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (gradd C neu uwch)

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:
Mae nifer o ddisgyblion yn mynd ymlaen i astudio'r pwnc ar lefel gradd. Mae eraill wedi mynd ymlaen i wneud gradd yn y Gyfraith, Newyddiaduriaeth, Meddyginiaeth, Gwleidyddiaeth, Athroniaeth, Economeg ac eraill. Felly, pa bynnag faes y byddwch yn ei ddilyn fel gyrfa yn y dyfodol, bydd Cymraeg yn gwrs gwerthfawr a heriol a fydd yn datblygu nifer o'r sgiliau sydd yn hanfodol ar gyfer gyrfa lwyddiannus.

# WELSH FIRST LANGUAGE

WJEC A LEVEL
**LEARNING PROVIDER:** YSGOL Y CREUDDYN

## What will you study?
There has never been a more exciting time to study Welsh at Advanced Subsidiary Level. In fields as varied as the media, education, the civil service, public relations, translation and local government, there is an enormous need for people with good qualifications in Welsh. Ysgol y Creuddyn has responded to this by providing an interesting and progressive course that is relevant to the needs of the modern world. Here you will be given the opportunity to foster valuable skills in preparation for jobs in Wales, write and speak confidently, analyse and express complex ideas, and learn about Welsh culture.

## Who is the course for?
This course is designed to encourage learners to:
- develop an interest in, and enthusiasm for, language;
- develop an understanding of the language in a variety of contexts;
- communicate confidently, clearly and effectively in the language for a range of purposes;
- develop awareness and understanding of the contemporary society, cultural background and heritage of communities where the language is spoken.

## How will you be assessed?

Advanced Subsidiary
**Unit 1:** Film, Drama and Speech - 20% approx.. ¾ hour for each Oral Examination group
**Unit 2:** Written Internal Assessment (Coursework) - 15% Internal Assessment
**Unit 3:** Using the Language and Poetry - 15% Written Examination Paper

Advanced
**Unit 4:** The Novel and Speech - 15% approx. ¾ hour for each Oral Examination group
**Unit 5:** The Legends, The Hengerdd and the Cywyddau - 15% Written Paper
**Unit 6:** Literary Appreciation and Use of Language - 20% Written Paper

## Entry Requirements:
Welsh Language and Literature GCSE (grade C or higher)

## Your options after the course:
A number of pupils go on to study the subject to degree level. Others have taken a degree in Law, Journalism, Medicine, Politics, Philosophy, Economics and other subjects. Whichever career you choose, therefore, Welsh will be a valuable and challenging course that will develop a number of skills that are essential for a successful career.

# CYMRAEG AIL IAITH

LEFEL A CBAC
**DARPARYDD DYSGU:** YSGOL JOHN BRIGHT

## Beth fyddwch yn ei astudio?

Mae UG ac Uwch mewn Cymraeg Ail Iaith yn annog dysgwyr i:

- cyfathrebu'n gywir ac yn rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig mewn ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau.
- ysgrifennu'n greadigol a ffeithiol i amrywiaeth o bwrpasau.
- dadansoddi testunau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn annibynnol.
- gwrando ac ymateb i farn eraill wth fynegi safbwynt mynegi barn yn annibynnol, yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o ystod o destunau llenyddol a ffeithiol.
- ymateb yn glir, yn berthnasol, yn hyderus ac yn strwythuredig yn y Gymraeg.

## I bwy mae'r cwrs?

Gydag ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ni fu erioed amser mwy cyffrous i astudio'r Gymraeg ar lefel uwch. Drwy gydol y cwrs byddwch yn datblygu'r sgiliau hyn ymhellach wrth i chi gael eich trochi mewn llenyddiaeth, diwylliant a hanes yr iaith, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a magu hyder i ddefnyddio'r iaith i'r eithaf a dathlu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn berson ifanc yng Nghymru ar hyn o bryd!

## Sut gewch chi eich asesu?

UG Uned 1 Arholiad Llafar: Adran A tua 20 munud i bob grŵp; Adran B tua 5 munud i bob ymgeisydd.
Ffilm a Llafaredd - 15% o'r cymhwyster 60 marc: Adran A: Trafod ffilm, Adran B: Ymateb personol.
UG Uned 2 Asesiad Diarholiad - 10% o'r cymhwyster 60 marc
Ysgrifennu 3 darn estynedig. Cyfanswm rhwng 1,500 a 2,000 o eiriau.
UG Uned 3 Papur Ysgrifenedig: 2 awr - Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth - 15% o'r cymhwyster 120 marc.
Adran A: Cwestiwn cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol; Adran B: 3 chwestiwn wedi'u strwythuro ar y testunau gosod.
U2 Uned 4 Arholiad Llafar: Adran A a B tua 30 munud i bob grŵp; Adran C tua 5 munud i bob ymgeisydd.
Drama a Llafaredd - 25% o'r cymhwyster 75 marc.
Adran A: Byw yn Gymraeg; Adran B: Trafod Drama; Adran C: Ymateb personol; Asesiad Synoptig.
U2 Uned 5 Papur Ysgrifenedig: 2 awr. Y Gymraeg yn y Gymdeithas a Thrawsieithu - 15% o'r cymhwyster 80 marc.
Adran A: Y Gymraeg yn y gymdeithas; Cwestiynau wedi'u strwythuro ar y testun gosod; Adran B: Trawsieithu – ymateb yn ysgrifenedig yn Gymraeg i erthygl Saesneg; Asesiad Synoptig
U2 Uned 6 Papur Ysgrifenedig: 2 awr.
Defnyddio Iaith a'r Stori Fer - 20% o'r cymhwyster 100 marc
Adran A: Cwestiwn cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion ieithyddol; Adran B: 2 gwestiwn wedi'u strwythuro ar un o'r testunau gosod ac 1 cwestiwn synoptig yn cysylltu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a ddatblygwyd yn y pwnc; Asesiad Synoptig.

## Gofynion Mynediad:

TGAU Cymraeg Ail Iaith (gradd B neu uwch)

## Eich opsiynau ar ôl y cwrs:

Mae'r Gymraeg yn cadw'r drws ar agor i gymaint o swyddi a gyrfaoedd cyffrous ac amrywiol. Mewn meysydd mor amrywiol â'r cyfryngau, addysg, y gwasanaeth sifil, cysylltiadau cyhoeddus, cyfieithu a llywodraeth leol, ni fu erioed mwy o angen na galw am sgiliau dwyieithog.

# WELSH SECOND LANGUAGE

WJEC A LEVEL
**LEARNING PROVIDER:** YSGOL JOHN BRIGHT

## What will you study?

The AS and A Level in Welsh Second Language encourages learners to:

- communicate correctly and fluently both orally and in writing within a wide range of situations and contexts.
- write creatively and factually for a range of purposes.
- analyse familiar and unfamiliar texts independently.
- listen and respond to the opinions of others when expressing a point of view and express an independent opinion, based on knowledge and understanding of literary and factual texts.
- respond in Welsh with clarity, in a relevant, confident and structured manner.

## Who is the course for?

With the government's commitment to securing a million Welsh speakers by 2050, there has never been a more exciting time to study Welsh at Advanced Level. Throughout the course you will further develop these skills by immersing yourself in learning about varied aspects of Welsh literature, culture and language, whilst very much keeping a focus on using your language to its fullest and celebrating what it means to be a young person in Wales right now!

## How will you be assessed?

AS Unit 1 Oral Examination: Section A approx. 20 mins. per group; Section B approx. 5 mins. per candidate.
Film and Oracy - 15% of qualification 60 marks: Section A: Discussing a film, Section B: Personal response.
AS Unit 2 Non-examination Assessment - 10% of qualification 60 marks
3 extended written pieces. Total of between 1,500 and 2,000 words.
AS Unit 3 Written Paper: 2 hours - The Use of Language, and Poetry - 15% of qualification 120 marks.
Section A: A composite question which includes different types of linguistic exercises; Section B: 3 questions based on the prescribed texts.

A2 Unit 4 Oral Examination: Section A and B approx. 30 mins. per group; Section C approx. 5 mins. per candidate.
Drama and Oracy - 25% of qualification 75 marks.
Section A: Living through the medium of Welsh; Section B: Discussing a play; Section C: Personal response; Synoptic Assessment
A2 Unit 5 Written Paper: 2 hours.
The Welsh language in Society and Translanguaging - 15% of qualification 80 marks. Section A: The Welsh language in society - questions based on the prescribed text; Section B: Translanguaging – a written response in Welsh to an English-language article; Synoptic Assessment.
A2 Unit 6 Written Paper: 2 hours.
The Use of Language and the Short Story - 20% of qualification 100 marks
Section A: A composite question which includes different types of linguistic exercises; Section B: 2 questions based on one of the prescribed texts and 1 synoptic question which bring together the information, understanding and skills developed in the subject; Synoptic Assessment.

## Entry Requirements:

Welsh Second Language GCSE (grade B or higher)

## Your options after the course:

The Welsh language keeps the door open to so many exciting and varied jobs and careers. In fields as varied as the media, education, the civil service, public relations, translation and local government, there has never been a greater need or desire for people with bilingual skills.

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

## C: Sawl pwnc gaf i astudio yn coleg / mewn ysgol arall?

A: Cewch astudio un pwnc ar yr opsiwn Diwrnod LINC Conwy. Os yw eich ysgol yn gweithio mewn trefniant partneriaeth lleol gydag ysgol gyfagos hefyd, gallwchddewis astudio pynciau a gynigir yn y fan honno hefyd ar yr amod nad oes gwrthdrawiad yn yr amserlen. Mae teithio i ysgolion eraill yn gofyn ymrwymiad am hyd y cwrs.

## C: A fydd raid i mi wisgo fy ngwisg ysgol os caf wersi mewn ysgol arall/yn y coleg?

A: Nid yw gwisg ysgol yn ofynnol yn y coleg, Os oes gan eich ysgol wisg chweched dosbarth effallai y bydd disgwyl I chi wisgo hon wrth ddysgu mewn ysgol arall. Fel arall, bydd gwisg smart ond hamddenol yn dderbyniol.

## C: Beth am drefniadau cinio?

A: Os byddwch eisiau cael eich cinio yn yr ysgol gynnal (yr un rydych yn ymweld â hi), byddent yn gwneud trefniadau i chi. Pan fyddwch yn astudio yn y coleg, gallwch ddefnyddio'r caffi myfyrwyr.

## C: Sut fyddaf i'n teithio i'r coleg neu i ysgol arall?

A: Byddwn yn darparu cludiant yn rhad ac am ddim i chi ond byddwch chi'n gyfrifol am gyrraedd ar yr amser cywir. Ni ddylech ddefnyddio eich cludiant eich hun. Ond, os ydych Yn byw o fewn pellter cerdded at ddarparydd dysgu LINC Conwy, bydd disgwyl i chi ganfod eich ffordd eich hun o gyrraedd yno.

## C: A oes gan bob Darparydd Dysgu yr un codau ymddygiad?

A: Nac oes. Bydd rhai gwahaniaethau ond cewch glywed am y rhain pan ddechreuwch eich cwrs. Bydd disgwyl i chi arwyddo Cytundeb y Dysgwr sy'n gofyn i chi barchu rheolau'r darparydd dysgu.

## C: Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

A: Yn ogystal â siarad gydag athrawon yn eich ysgoDydd Iau Medi'r 3ydd 2026 12yl, bydd angen i chi lenwi'r ffurflen gais ar-lein erbyn Dydd Iau Medi'r 4ydd 2026.

# FREQUENTLY ASKED QUESTIONS

## Q: How many subjects can I study at another school/college?

A: You can study one subject on the LINC CONWY option. If your school is also working in a local partnership arrangement with a neighbouring school, you can also choose to study subjects offered there, as long as there is not a timetable clash. Travelling to other schools requires commitment for the length of the course.

## Q: Will I have to wear school uniform if I have lessons in another school/college?

A: School uniform is not required when at college. If your school has a sixth form uniform then you may be expected to wear this when learning at another school. Otherwise, smart, casual wear is acceptable.

## Q: What about lunch arrangements?

A: If you want to have lunch at your host school (the one you're visiting), arrangements will be made for you. When studying at the college, you can use student cafeterias.

## Q: How will I travel to another school or college?

A: Transport will be provided free of charge but it will be your responsibility to turn up at the correct time. You should not use your own transport. However, if you live within walking distance of your LINC Conwy learning provider, you will be expected to make your own way there.

## Q: Do all learning providers have the same codes of conduct?

A: No. There will be some differences but you will be informed of these when you start your course. You will be expected to sign a Learners' Agreement which requires you to respect the rules of the learning provider.

## Q: What do I do next?

A: As well as talking to teachers at your school, you will need to complete the on-line application by Thursday 3rd September 2026 12pm.



# CANFOD RHAGOR

Ewch i'r Nosweithiau Agored Chweched Dosbarth yn:

| | |
|---|---|
| 9fed Rhagfyr 2025 | Ysgol Aberconwy |
| 13eg Ionawr 2026 | Ysgol Bryn Elian |
| 20fed Ionawr 2026 | Ysgol Dyffryn Conwy |
| 27ain Ionawr 2026 | Ysgol Eirias |
| 22ain Ionawr 2026 | Ysgol Emrys ap Iwan |
| 13eg Ionawr 2026 | Ysgol John Bright |
| 21ain Ionawr 2026 | Ysgol Y Creuddyn |
| 9fed Mawrth 2026 (Rhos) | Coleg Llandrillo |
| 10fed Mawrth 2026 (Rhyl) | |

I ganfod rhagor am eich dewisiadau cwrs bob Dydd Mercher, ewch i Brynhawn Gwybodaeth Partneriaeth LINC Conwy ar:

**Ionawr 28ain 2026** yn VENUE CYMRU, LLANDUDNO

**20fed Awst 2026** Diwrnod Canlyniadau Arholiadau TGAU

Y dyddiad cau ar gyfer llenwi Ffurflen Gais LINC Conwy ar-lein. (Gofynnwch i'ch Pennaeth Chweched am y ddolen/ Cod QR):

**Dydd Iau Medi'r 3ydd 2026 12yp**

Mae copïau o'r prosbectws ar gael ar www.conwy.gov.uk ac ar wefan eich ysgol.

Mae cyrsiau LINC Conwy'n cychwyn ar:
**Ddydd Mercher Medi'r 9fed 2026**

# FIND OUT MORE

Go to Sixth Form Open Evenings at:

| | |
|---|---|
| 9th December 2025 | Ysgol Aberconwy |
| 13th January 2026 | Ysgol Bryn Elian |
| 20th January 2026 | Ysgol Dyffryn Conwy |
| 27th January 2026 | Ysgol Eirias |
| 22nd January 2026 | Ysgol Emrys ap Iwan |
| 13th January 2026 | Ysgol John Bright |
| 21st January 2026 | Ysgol Y Creuddyn |
| 9th March 2026 (Rhos) | Coleg Llandrillo |
| 10th March 2026 (Rhyl) | |

To find out more bout your Wednesday course choices, visit the LINC Conwy Partnership Information Event on:

**28th January 2026** at VENUE CYMRU, LLANDUDNO

**20th August 2026** GCSE Exam Results Day

Deadline for completion of on-line LINC Conwy Application Form. (Ask your Head of Sixth Form for the link/ QR Code):

**Thursday 3rd September 2026 12pm**

Copies of the prospectus are available on www.conwy.gov.uk and your school's website.

LINC Conwy Courses start:
**Wednesday 9th September 2026**

North Wales Regional Skills Partnership
Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

# CYFLEOEDD I WEITHIO YNG NGOGLEDD CYMRU YN Y DYFODOL

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-25 ac mae'n diweddaru hwn ar hyn o bryd er gwybodaeth yn y dyfodol.

www.rspnorth.wales/north-wales-skills-and-employment-plan-2023-25

Mae'n tynnu sylw at feysydd o allweddol, sialensiau a phrinder sgiliau y mae esboniad o rai ohonynt drosodd.

# FUTURE EMPLOYMENT OPPORTUNITIES IN NORTH WALES

The North Wales Regional Skills Partnership published the North Wales Skills and Employment Plan 2023-25 and is currently updating this for future information.

www.rspnorth.wales/north-wales-skills-and-employment-plan-2023-25

It highlights key growth areas, challenges and skills shortages some of which are explained overleaf.

LINC Conwy

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

